Chartered Institute of Housing Cymru

# Cynllun tai i Gymru

## Sicrhau y gall pawb gael mynediad at gartref addas, diogel a fforddiadwy

**Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i'r canlynol:**

**1. Ymwreiddio'r hawl i dai digonol yn neddfwriaeth Cymru**

Er mwyn sicrhau bod tai'n dod yn genhadaeth sylfaenol sydd ei hangen arnom, i fynd i'r afael â'r problemau strwythurol a systemig gyda'n system tai yng Nghymru, cred CIH Cymru fod yn rhaid ymgorffori'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru.

**2. Mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy**

20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol dros dymor nesaf y Senedd, y bydd angen buddsoddiad o £646 miliwn y flwyddyn ar eu cyfer.

**3. Gwella ein cartrefi presennol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd**

Mae arnom angen buddsoddiad o £210 miliwn y flwyddyn i ddatgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol dros y deng mlynedd nesaf. Mae angen i ni ystyried hefyd sut y byddwn yn datgarboneiddio'r sector preifat, sy'n cyfrif am 84 y cant o'r holl gartrefi.

**4. Mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo cymunedau amrywiol**

Mae angen gweithredu mwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol. Mae angen ymgyrch genedlaethol arnom i ganolbwyntio ar bwy sy'n byw mewn tai cymdeithasol a'u pwysigrwydd wrth ateb y galw am gartrefi addas, diogel a fforddiadwy.

**5. Gweithlu proffesiynol a gwydn**

Amlygodd dau draean o'r ymatebwyr i'n cipolwg diweddaraf ar y sector fod pwysau allanol yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Mae pobl yn gweithio mewn tai i wneud gwahaniaeth. Nawr yw'r amser ar gyfer strategaeth gweithlu i adeiladu gweithlu gwydn a gwerthfawr, sy'n cael ei gydnabod am ei arbenigedd.

**Eisiau clywed mwy? Cysylltwch â thîm polisi CIH Cymru:**


Matthew Dicks, cyfarwyddwr cenedlaethol CIH Cymru
matthew.dicks@cih.org • 02475 312 018

Cerys Clark, rheolwr polisi a materion cyhoeddus CIH Cymru
cerys.clark@cih.org • 07939 302 566